**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | W Evans | L S Gibbard |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| P B Smith | D W W Thomas | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Healey | Arweinydd Tîm Ardal |
| Amanda Pugh | Uwch-beiriannydd |
| Ryan Thomas | Rheolwr Rheoli Cynllunio |
| Krystyna Williams | Urban Design & Conservation Officer |
| Jonathan Wills | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 32 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 33 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2019 fel cofnod cywir.

## 34 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

**Eitem 6 yr Agenda - Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

(Eitem 1) - Cais cynllunio 2019/1905/FUL - Newid defnydd y siop gwerthwr tai ar y llawr gwaelod (Dosbarth A2) i fod yn gaffi/bar gwin (Dosbarth A3) yn 448 Heol Gŵyr, Cilâ, Abertawe - Tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd.

## 35 Dargyfeiriadau a Chreu Llwybrau Troed a Llwybrau Ceffyl - Cymuned Pennard

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio adroddiad a oedd yn ceisio addasu llwybrau cyfreithlon y llwybrau ar draws cwrs golff Pennard Burrows i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r llwybrau y mae'r cyhoedd wedi'u defnyddio ers o leiaf 25 mlynedd.

Amlinellwyd y manylion a'r wybodaeth gefndir ynghylch y cynigion yn fanwl yn yr adroddiad.

Derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cynigion a manylwyd ar hwn yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Cynghorydd Lynda James (aelod lleol) yn gallu dod i'r cyfarfod ond ei bod wedi dweud wrtho ei bod yn cefnogi'r cynigion.

**Penderfynwyd** gweithredu'r gorchmynion i greu neu ddiddymu llwybr cyhoeddus er mwyn symud llwybrau cyfreithlon y llwybrau i'r llwybrau a ddefnyddir, ac os ceir gwrthwynebiadau, caiff y gorchmynion a'r gwrthwynebiadau eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio.

## 36 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd**

(1) **cymeradwyo'r** cais cynllunio y cyfeirir ato isod am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad:

**#(Eitem 2) - Cais cynllunio 2019/1307/S73 - Datblygu 61 o anheddau gyda mannau agored cysylltiedig, tirlunio, trefniadau mynediad, gwaith isadeiledd a pheirianneg cysylltiedig (amrywiad ar amodau 1 (cynlluniau), 14 (cael gwared ar goed a gwrychoedd), 15 (tirlunio meddal), 16 (gwaith tirlunio), 18 (rheoli gwrychoedd), 19 (arwynebau allanol) o gynnig cynllunio 2019/0450/S73, a gymeradwywyd ar 9 Mai 2019 i gael gwared ar wrych a rhoi planhigion addas yn ei le) ar dir oddi ar Lôn Summerland, Newton, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Adroddwyd am lythyr gwrthwynebu hwyr arall gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Derbyniwyd hefyd gynllun diwygiedig.

Gwnaed newidiadau i'r argymhelliad fel a ganlyn:
Dileu '399.01 Rev E - Cynllun Plannu a Rheoli Gwrychoedd, a dderbyniwyd ar 8 Hydref 2019' o amodau 1, 14, 15, 16, 18 a 19 a nodi'r canlynol: '399.01 REV E - Cynllun Plannu a Rheoli Gwrychoedd, a dderbyniwyd ar 4 Tachwedd 2019'

Anerchwyd y pwyllgor gan Geraint John (asiant).

## 37 2019/1906/106 - Tir i'r de o Heol Glebe - Addasu Cytundeb A106.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn ceisio awdurdod i ddiwygio gofynion arfaethedig cytundeb Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio amlinellol (2013/0617) a gymeradwywyd ar gyfer y datblygiad preswyl ar y safle.

Amlinellwyd y materion cefndir a'r hanes ynghylch y cais a gymeradwywyd ym mis Hydref 2017 a manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Mae'r ymgeisydd wedi gofyn i gynnwys Cymal Meddiant gan y Morgeisai sy'n ymwneud â'r unedau rhentu cymdeithasol y cyfeirir atynt yng nghytundeb Adran 106, oherwydd y byddai hyn yn rhoi opsiynau gwell i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i ariannu datblygiadau. Amlinellwyd y rhesymau dros gyflwyno'r cais.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Cynghorydd Robert Smith (aelod lleol) yn gallu dod i'r cyfarfod ond ei fod wedi dweud wrtho ei fod yn cefnogi'r cynigion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo newid y cytundeb Adran 106 (rhwymedigaeth gynllunio) i ddarparu Cymal Meddiant gan y Morgeisai er mwyn darparu'r tai fforddiadwy yn y datblygiad arfaethedig.

## 38 Cymeradwyo Atodiad Adolygiad Ardal Gadwraeth y Mwmbwls ar Gyfer Ymgynghori â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn darparu trosolwg o atodiad i'r Adolygiad Drafft o Ardal Gadwraeth y Mwmbwls a cheisiodd ganiatâd i gynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Amlinellwyd manylion yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus cychwynnol a gynhaliwyd yn 2018. Daeth materion ynghylch ehangu'r ardal gadwraeth i gynnwys yr ardaloedd ychwanegol a amlinellir ar y map yn yr adroddiad ac ychwanegu eiddo ychwanegol ar lan y môr, fel a gynigiwyd yn yr adroddiad i'r amlwg yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.

**Penderfynwyd**

1) cymeradwyo'r ddogfen atodol i Adolygiad Ardal Gadwraeth y Mwmbwls ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddeiliaid;

2) adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio am atodlen o ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd er mwyn iddo ei ystyried a rhoi cymeradwyaeth derfynol iddo fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.26 pm

**Cadeirydd**